Cyngor Cymuned Llanwnda

COFNODION
HYDREF 2006

DYDDIAD	Nos Fercher, 18fed Hydref, 2006
AMSER	7.00yh
LLEOLIAD	Neuadd Rhostryfan
AELODAU YN BRESENNOL	Huw Williams (Cad), Meurig Williams, Jason Hunt, Gwilym L.Williams, Gwilym V.Thomas, Elwyn Jones, Emrys Jones, Hugh Jones, Tom Ellis, Neal Williams
HEFYD YN BRESENNOL	Mel Fôn, Swyddog Diogelwch Ffyrdd Bethan Williams (clerc)

1. **Arwyddion Arafu**
Eglurodd Mel Fôn fod sawl opsiwn ar gael, ee arwydd 30 gyda goleuadau'n fflachio, arwydd gyda'r geiriad Araf/Slow ayyb.
Penderfynwyd archebu dau arwydd, wedi'u cysylltu i'r *mains,* gyda 30 a goleudau'n fflachio. Un ar gyfer Rhosgadfan, wrth ddod o gyfeiriad y Fron, a'r llall yng ngwaelod pentref Rhostryfan. Penderfynwyd hefyd holi am effeithiolrwydd arwyddion solar, gyda'r posibilrwydd o gael gosod un, sydd yn rhybuddio fod tro yn y ffordd, wrth ddod i mewn i Ffrwd Cae Du o gyfeiriad Rhostryfan. Bydd yr arwyddion yn costio oddeutu £3,000 yr un, yn cynnwys eu gosod. Mel Fôn i adrodd yn ôl i'r clerc.
Gadawodd Mel Fôn y cyfarfod.

2. **Ymddiheuriadau**
Glyn Owen, Nerys Evans, Elin Evans

3. **Croeso**

4. **Datgan Buddiant**
GVT – ceisiadau am nawdd – Uned Bronyfoel.

5. **Cadarnhau cofnodion**
Cadarnhawyd fod cofnodion o'r cyfarfod diwethaf gynhaliwyd ar nos Fercher, Medi 27ain, 2006 yn gywir.

6. **Materion i'w trafod:**

1. Cynllun Uwchgwyrfai – clerc wedi ysgrifennu at Adran Gynllunio y Cynulliad ac at Asiantaeth yr Amgylchedd ym Mangor. Wedi derbyn llythyr gan Hywel Williams yn gofyn os oes angen iddo fo lythyru'r Cynulliad hefyd. Penderfynwyd gofyn wrtho wneud hyn.
2. ElJ – awgrymu y dylem ofyn wrth y Cyngor Sir gulhau'r ffordd ger Talybont, Rhostryfan drwy greu palmant, ac felly orfodi gyrrwyr i arafu. Clerc i sgwennu at Billy Lee.
3. ElJ – parcio ger White Gables – clerc wedi cysylltu efo'r Adran Drafnidiaeth i geisio sortio'r broblem.
4. EmJ – arwydd 40 yn Ffrwd Cae Du – clerc i ysgrifennu at yr Adran Briffyrdd yn datgan nad ydym yn derbyn yr ymateb ynglŷn ag arwyddion gorfodaeth. Hefyd gofyn os oes posib cael *barrier* ar y safle.
5. Safle hen orsaf Rhostryfan – clerc wedi bod yn cael cyngor gan Dewi Pritchard Jones, Cyfreithiwr, ynglyn â'r safle. Cynghori mai'r peth gorau fyddai cael lês gan y cwmni rheilffordd, yn yr un modd a gafodd Cyngor Gwynedd i ganiatâu llwybr troed ar hyd y lein. Clerc wedi cysylltu efo rheilffordd Ffestiniog i geisio bwrw 'mlaen efo'r cynllun i ddatblygu'r safle. Rhoddwyd yr hawl i'r clerc apwyntio cyfreithiwr i wneud y gwaith.
6. Cysgodfan Penyffridd – y safle bellach wedi'i glirio ac archeb am gysgodfan newydd wedi mynd i Macemain Amstad – fel arfer mae rhestr aros o tua 8 wythnos, ond gobeithir y gellir cael gwneud y gwaith oddi fewn oddeutu 6 wythnos. Awgrymwyd y dylem gysylltu efo'r heddlu i geisio cael camerau CCTV ar y safle cyn i'r gwaith o osod y gysgodfan newydd gychwyn.
7. Gor-dyfiant Gwelfor – Cyngor Gwynedd wedi gaddo y byddai'r gwaith yn cael ei wneud yn fuan. Dim byd wedi digwydd hyd yma. Clerc i fynd ar eu holau eto.
8. Ymateb gan Hywel Williams ynglyn â'r gwasanaeth y mae'r swyddfeydd post yn ei gynnig. Adroddodd HJ fod problem fawr yn wynebu'r swyddfeydd post gwledig gan fod y llywodraeth yn mynnu lleihau'r gwasanaethau maent yn eu cynnig. Petisiwn wedi cael ei gyflwyno i'r llywodraeth gyda 4 miliwn o enwau yn gwrthwynebu'r newidiadau arfaethedig.
9. Safle Wê – clerc wedi trefnu fod y gwaith yn digwydd, a bydd cytundeb ddrafft yn cael ei chyflwyno'n fuan rhwng y Cyngor Cymuned a Chwmni Amalgam8. Angen casglu gwybodaeth am bob aelod, a byddai'r clerc yn gwerthfawrogi cael y ffurflenni yn ôl mor fuan â phosib. Hefyd angen sicrhau caniatâd i ddefnyddio mapiau ac ati ar y safle. Nodwyd fod safle wê ardal y Rhiw yn batrwm da ar gyfer safloedd o'r math.

10. Derbyniwyd lythyr gan Adran yr Amgylchedd yn nodi eu bod yn archwilio i'r cwynion ynglŷn â'r broblem baw ceffylau ac ati.
11. Cefnfaes – nododd y clerc ei bod wedi paratoi ffurflenni newydd a rheolau newydd ar gyfer yr ymgymerwyr. Nododd hefyd ei bod wedi paratoi cytundeb ffurfiol rhwng yr ymgymerwyr a'r cyngor sy'n nodi mai'r ymgymerwr sy'n cymryd cyfrifoldeb dros unrhyw waith sy'n cael ei wneud ar eu rhan.

7. **Derbyn Adroddiadau:**
Dim

8. **Is-bwyllgorau:**
Mynwent Cefnfaes – 20.09.06 – cytunwyd i fabwysiadu'r rheolau newydd.
Pwyllgor cyllid a gweinyddol – 20.09.06 – cymeradwywyd y cyfrifon hyd at ddiwedd Medi a'r taliadau canlynol:
Cyflog/costau clerc – Medi - £473.96
Cyllid y wlad - £90.64
Peti cash - £100
Siôn Owen – clirio llwybrau - £200
Charli Britton – gwaith celf arwyddion - £211.50
Gwilym Ll.Williams – torri gwrychoedd - £352.50
Wyn Williams - £754.00
Shaw's – llyfr mynwent - £159.62

9. **Materion Ariannol Hydref**

Cyfri Cadw:	25,696.21
Cyfri Siec:	2,000.87
CYFANSWM	**£27,697.08**

Anfonebau:
Cyflog/costau clerc – Hydref - £389.36; Cyllid y wlad - £90.64;
Peti cash - £100.00; Wyn Williams - £679.00;
Sportfix – archwiliad offer chwaraeon – cyfrif Tir Glas - £176.25
Nawdd: Marie Curie - £100; Ambiwlans Awyr - £100; Uned Bronyfoel - £100; Cymdeithas Lenyddol Rhos Isaf - £50
Gofynnwyd i'r clerc anfon at yr Eisteddfod Genedlaethol i gael copi o'r fantolen ar gyfer Eisteddfod Eryri 2005.

Yswiriant offer chwaraeon – pris gwreiddiol ddim yn cynnwys niwed i'r offer. Cafwyd amcanbris ar y ffôn y byddai'n costio tua £200 ychwanegol, penderfynwyd peidio mynd ymlaen i yswirio'r offer.

Derbyniadau:
Bob Kane – ad-daliad gosod plac Capel Tabernacl - £90.00

10. **Materion Cynllunio**

CO6A/0675/24/LL – codi byngalo dormar ar lain o dir ger Llwyn Dderwen, Dinas – Nodi fod y fynedfa braidd yn beryg o ystyried prysurdeb yr A487 ger y safle. Nodi hefyd fod cais wedi'i wneud rai blynyddoedd yn ôl ar dir tu cefn i'r safle presennol, ac fe wrthodwyd hwnnw. Credwn fod angen cysondeb.

CO6A/0661/24/CR – addasu adeilad amaethyddol i swyddfa yn Ty Hen, Llanwnda. Teimlir fod gormod o ddatblygu ar y safle a fod cryn bryder ynglŷn â'r fynedfa (nodwyd hyn gan Gyngor Llanwnda pan wnaethpwyd cais i gael newid defnydd i feithrinfa)

CO6A/0705/24/AM – adeiladu tŷ a mynedfa newydd yn Ty Maen, Rhostryfan – dim gwrthwynebiad

Wedi'i ganiatau:
Estyniad uned gwyliau presennol Hafoty, Rhostryfan

Wedi'i wrthod:
Datblygiad preswyl – Gwynedd Farm Machinery, Dinas

11. **Gohebiaeth**:

a) Cyfadran Amgylchedd – copi o lythyr anfonwyd at Bryn Hughes ynglŷn â'r gordyfiant yn Glanaber, Rhostryfan
b) Llythyr gan Robert Arwel Jones, Ty'n Rhosgadfan yn nodi fod camgymeriad ynglŷn â'r enw yn y papur (clerc wedi anfon cywiriad i'r papur yr wythnos hon), ac yn cwyno am safle coffa Kate Roberts ar Lôn Wen, a gwrthwynebiad lleol i ddatblygiad yn Hafoty Pen Bryn. Clerc i anfon copi o ohebiaeth sydd wedi'i anfon at Gyngor Gwynedd dros gyfnod o fisoedd yn nodi ein hanfodlonrwydd ar gyflwr safle coffa Kate Roberts ac i nodi na chafwyd cwynion drwy law'r Cyngor Cymuned ynglŷn â'r datblygiad yn Hafoty Pen Bryn/Plas Ffynnon, ac felly nid oedd yr aelodau'n ymwybodol fod gwrthwynebiad lleol i'r datblygiad. Clerc i anfon rhestr o enwau'r cynghorwyr at Mr.Jones er gwybodaeth.

c) Cyfadran Amgylchedd – rhaglen waith
d) Un Llais Cymru – cylchlythyr a chylchgrawn
e) Cyfadran Adnoddau – gorchymyn cau ffordd ger Frondeg, Rhostryfan a Llwyn Gwalch, Groeslon
f) Cyfadran Amgylchedd – llythyr yn rhoi braslun o'r bwriad i ddadgriminaleiddio gorfodaeth parcio fydd yn digwydd ym mis Ebrill 2007. Clerc i wahodd swyddog i'r cyfarfod nesaf i gael egluro'r sefyllfa.
g) Llythyr gan Mr.Yorke, Ty Hen Rhosgadfan yn cwyno am blant yn ardal yn cadw sŵn. Mae'r heddlu eisoes wedi derbyn copi o'r llythyr.
h) Heddlu – cylchgrawn 'Y Glas'
i) Llythyr gan Alun Ffred Jones ynglŷn â golwg ar bost Cymru – yn ein hannog i ymateb i'r ddogfen ac yn ein hannog i bwyso ar y Cynulliad i geisio prysuro'r gwaith o adeiladu ffordd osgoi.

12. **Materion i'w trafod yn y cyfarfod nesaf**
NW – parcio y tu allan i Glyn Aber, Rhosgadfan – ymddengys fod y perchnogion wedi cael caniatâd i wneud safle parcio ond heb fanteisio ar y cyfle.
NW - Ffridd Terrace – twll yn y ffordd ers i gwmni Daniel wneud gwaith yno'n ddiweddar.
JH – cyflwr y wal sydd yn weddill o garej yr Hen Bost, Rhostryfan. Mae'n ymddangos fod plant yn taflu cerrig rhydd i'r llawr. Clerc i gysylltu â'r perchennog i roi gwybod iddynt.
ElJ – gordyfiant gwrychoedd Cae Coch a Bryn Llys.
ElJ – cafwyd cwynion gan bobl sy'n defnyddio llwybr rhwng Tyddyn Canol a Rhandir Mwyn fod ceffylau yn peri pryder iddynt, gofyn tybed oes modd ffensio'r llwybr.
GLW – gordyfiant yng ngardd Menai View yn creu anhawster i yrrwyr sy'n dod o gyfeiriad Rhos Isaf.
HJ – cwynion am broblem parcio yng nghyffordd Dinas.
HJ – awgrymu ein bod yn cyfarfod yng nghanolfan newydd Llanwnda ar yn ail â Rhostryfan – clerc i gysylltu â'r ysgrifennydd.
TE – arwyddion ar ffordd osgoi newydd – Cyngor Cymuned wedi gofyn am arwyddion fisoedd yn ôl bellach – clerc i fynd ar eu holau.

13. **Dyddiad Cyfarfod Nesaf** – 15fed Tachwedd - i'w gadarnhau

Daeth y cyfarfod i ben am 9.15p.m.